

**MEETING OF THE PENSIONS COMMITTEE
OF TORFAEN COUNTY BOROUGH COUNCIL
Held on Monday, 4 July 2016 at 10am
In the Council Chamber, Civic Centre, Hanbury Road, Pontypool, NP4 6YB**

MINUTES

Attendance: Members of the Committee

Councillors:

Mary Barnett (Chair)
Stephen Brooks KSS JP

Nigel Davies

Officers

Nigel Aurelius, Assistant Chief Executive, Resources (ACER)
Ros Gwynn, Democratic and Member Support Manager (D&MSM)
Delyth Harries, Assistant Chief Legal Officer and Deputy Monitoring Officer (ACLO&DMO)
Mary Rollin, Pensions Manager (PM)
Graeme Russell, Head of HR and Pensions (HoHR&P)
Geraint Thomas, Democratic & Member Support Officer (D&MSO)

Also Attending the Meeting

Elizabeth Carey, Independent Investment Advisor
Julie Masci, Associate Director Grant Thornton
Jackson Murray, Audit Manager Grant Thornton

Observing from the public gallery

5 Pension Board Members

Action

1 Attendance and Apologies

- 1.1 Apologies had been received from Cllrs Huw Bevan, Pamela Cameron and Stuart Evans. The Chair welcomed the 5 Pension Board Members who were observing the meeting from the Public Gallery, the representatives from Grant Thornton and Elizabeth Carey who was attending her first meeting of the Pensions Committee.
- 1.2 The Chair explained that the Pension Board Members would be required to leave the Chamber for agenda items 11 and 12 under the exclusion of press and public rules, however the information would be available to all Pension Board Members in due course.

2 Declarations of Interest

- 2.1 Members confirmed the following declarations of personal interest as read by the Assistant Chief Legal Officer and Deputy Monitoring Officer:

Councillor	In Receipt of Pension	Contributor
Mary Barnett	Husband	Self
Stephen Brooks	Self and brother	Self, niece and niece's husband
Nigel Davies	NONE	Self

Councillor Barnett also declared a personal interest as she was the Welsh Representative on the LGPS Ministerial Scheme Advisory Board and a member of the Deficit Working Party, had been appointed onto the Executive of LAPFF (Local Authorities Pension Funds Forum), member of LGPC and a Member of the UCU Welsh Retired members. Cllr Barnett also confirmed that her attendance would be expected at the joint meetings of the all-Wales Chairs, Section 151 officers and Pensions Heads on the collaboration investment pool for Wales.

2.2 The Assistant Chief Legal Officer and Deputy Monitoring Officer left the meeting at this point.

3 Minutes 14/3/16

3.1 It was noted that Bob Campbell had been referred to as Bob Cameron within the minutes.

3.2 In relation to 5.2 the Head of HR and Pensions (HoHR&P) confirmed that the two Pension Board vacancies had been filled. Regarding 12.1, the conference had been excellent but muted following the Brexit outcome on the Friday which had proved to be very useful to committee members and members of the Board.

3.3 Subject to the above, the minutes were confirmed as a true record of the meeting.

4 Pension Fund Annual Report and Accounts 2015/16

4.1 The HoHR&P outlined the following headlines from the report:

- Much within the report had been previously considered by the Pensions Committee.
- A lot of detail was contained in the report, some of which was prescribed by Regulation.
- In overall terms, it had been an interesting year, which had seen an increase on membership by 3.4 % and a change in the profile of membership. The total scheme members now stood at 55,481 and the net assets of the Fund stood at £2.210bn. Annual payments to pensioners were £109.229m.
- A difficult investment environment existed, due to turbulence in a political and economic context, including various national legislative changes.
- The Fund had not experienced an overall positive investment return. It had underperformed, as had the market generally, however the fund had marginally underperformed in relative terms.

- The Governance arrangements via the Board and Risk Management were explained, as per pages 27 and 29 of the agenda respectively.
- 3 or 4 areas of investment underperformance existed; however this was partly outweighed by other strong performances. He expanded by reminding the committee that action had been taken regarding the underperforming Aberdeen investments, and improvements were now being seen in this area.
- He explained that the Top Ten UK Equity Segregated Holdings listed on page 106 of the agenda did not include pooled vehicles, of which the Fund uses many.
- He explained that national government developments and proposals were important regarding governance going forward.

4.2 The Chair stated her belief that the Fund had made the correct decision to have a larger Pension Board than most and that this had significantly helped in terms of achieving a quorum at meetings. She also thanked the Board for their attendance and training undertaken.

4.3 A discussion took place around ESG concerns and investments in companies such as tobacco firms. The HoHR&P agreed that a fine balance existed between ethical requirements and financial responsibilities and that ethical screening existed in terms of investment managers. Members agreed that they were ultimately responsible for achieving sufficient returns to make pension payments.

4.4 The Pensions Committee agreed the Report and noted the next stages of the approval process for the Accounts.

5 Audit of Annual Report and Accounts 2015/16 (Grant Thornton ISA 260 Report)

5.1 Julie Masci introduced herself and her colleague Jackson Murray, who had audited the 2015/16 accounts. They provided the following headlines from the report:

- The timetable for providing their audit opinion and certificate was outlined. They stated that the audit would be tabled at Council on 19th July and would hopefully be signed off the following day.
- They placed on record their thanks to the HoHR&P and his team for their work and support throughout the audit process.
- They praised the Council as a whole because the accounts were finalised over 2 months before the national deadline. It was noted that due to this some adjustments were required as fresher information was now available.
- Post-balance sheet events could have an impact, such as the EU referendum result that had attracted volatility regarding investments and valuations.
- Narrative was provided regarding Newport Transport Ltd, Capita Gwent Consultancy, Monwell Hankinson and the transfer of £45m to the Rhondda Cynon Taf Fund, due to the merger of the University of South Wales.

- It was explained that due to their recommendations, management had arranged adjustments regarding accrued lumped sums totalling £830k, which involved an extra 20 members which became apparent in June 2016.
- Minor errors had been experienced regarding some pensions benefits payments, however this was a one-off and work was being undertaken with the software supplier to correct this.
- The benefit of reconciling the membership numbers, as per 2014-15 recommendation was explained.
- Adjustments due to death benefits were discussed and additional voluntary contributions.

5.2 Following a comment from the report authors, the Assistant Chief Executive, Resources confirmed that he was comfortable with the fact that not all journals under £200k were subject to review and that the same policy had been successfully applied for a number of years.

5.3 The Chair thanked Grant Thornton for their positive remarks and their approach with officers. She also stated that she felt reassured regarding the transfer of assets in terms of BlackRock.

5.4 The Pensions Committee noted the report and necessary next steps for approval of the Accounts.

5.5 Julie Masci and Jackson Murray left the meeting at this point.

6 Quarterly Investment Performance Report to 31st March 2016

6.1 The HoHR&P explained that this report related to the period 1st January – 31st March 2016 and that some information was already historic. He provided the following headlines from the report:

- The Fund had seen a marginal increase of £12m since December 2015 but this was followed by a global slump in January and early February. The situation improved later in the quarter, resulting in a slightly positive quarter overall. The overall return was 1.2% better than the market.
- The Fund's positive return of 0.74% was nearly half that of the market generally and this was the opposite of what had occurred during the previous quarter.
- The last 3, 5 and 10 years' figures had edged down slightly and the situation was not as positive as it had been 2 or 3 quarters ago.
- Active investment managers had struggled generally during the last year and overall in terms of investment the underperformers slightly outweighed the over performers.
- The inconsistencies seen in the global market due to 'Brexit' were outlined, however it was noted that the markets had stabilised, with the UK market in a better position than the European market.
- The role of BlackRock as the new single passive asset investment manager for Wales (appointed jointly by all 8 funds) was outlined and that this was seen favourably by DCLG and the Treasury. It was

explained that the Fund already used BlackRock and other funds would be transferring to them.

- The collective work around active investments was explained and a deadline of late July had been set.

6.2 The Chair noted how impressed she was with the determination of the Welsh pool and that they had undertaken a forensic approach in terms of risks and the way forward.

6.3 The HoHR&P responded to Members' questions around management costs and transparency by explaining that CEM were being used to establish cost benchmarks, value for money and explore work around transparency. He added that an estimated saving of £1m-£1.5m per year was expected in terms of passive investment manager fees.

6.4 Members praised the work of officers, especially in light of the extra responsibilities due to cost saving measures within departments.

6.5 The Pensions Committee agreed to:

- i. note the investment performance that has taken place during the first quarter of 2016; and**
- ii. note recent investment activity.**

7 Pension Fund Policy Document Updates - Pension Fund Risk Register

7.1 The HoHR&P outlined the report. He explained that paragraph 5 of the report dealt with the issues from the Committee and Board, adding that slight alterations had been made to the register as a result and that the risks had been categorised.

7.2 The HoHR&P confirmed that he wanted to integrate this item further in terms of the annual report, adding that it was comprehensive and it could evolve.

7.3 The Pensions Committee agreed:

- i. to note the updates made to the new Fund Policy document, the Risk Register, to extend the Fund's current level of risk reporting;**
- ii. that the updated document is now published to the Pension Fund and Council websites and thus adopted as the Fund's current policy document;**
- iii. that following publication, any comments or questions from stakeholders in respect of the updated document can be directed to the Fund's designated officer contacts points for response and consideration if appropriate in future versions of the document;**
- iv. that any such further proposed updates will be brought forward for Committee's consideration before publication.**

8 Administration Update

8.1 The Pensions Manager provided an update and highlighted the following from the report:

- Improvements and cost savings had been made via system developments and communicating electronically, therefore improving communication speeds with members and employers.
- The launch of self-service via My Pension Online had been successfully trialled within Torfaen CBC, with a full rollout planned for August 2016.
- Improvements and data cleansing via the employer portal were explained, shown in paragraph 6 of the report.
- Significant improvements had been seen in terms of the percentage of employers meeting the year-end deadline, due to the work of the Pensions team and the employers themselves.
- An outstanding issue could be seen via the fact that over 1,000 non-notified leavers existed across the fund. This was a significant issue and required termination forms to be submitted by employers. As accurate information was necessary regarding actuary information, monthly updates would be used soon rather than year-end data.
- The Pensions team was working very hard to pull together the information outlined in paragraph 7 of the report regarding 2016 Actuarial Valuation.
- The increase seen in terms of work outstanding amongst the Pensions team was due to the fact that more work existed and that several officers were on maternity leave. It was hoped that the situation would improve in the coming months.
- The awards nominations outlined in paragraph 9 of the report reflected the work of the whole team and were brilliant achievements.
- It was confirmed that members of the Fund now had more control regarding retirement planning.

8.2 The Chair congratulated the Pensions team on their awards nominations and stated that the Committee looked forward to hearing the results.

8.3 The Pensions Committee noted the report.

9 Elected Members - Continuing Professional Development Update

9.1 The HoHR&P provided an update and explained that this was also an opportunity for Members to ask for any training and development.

9.2 Members noted the report.

10 Exclusion of Press and Public

10.1 The committee agreed to the exclusion of the press and public from the meeting as presentations and meeting papers were not for publication because in accordance with paragraphs 12 and 14 of part 4 of Schedule 12a of the Local Government Act 1972 (as amended by the Access to Information Variation Order Wales 2007), it contained information about a particular individual and information relating to the financial and

business affairs of particular persons including the Council and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemptions outweighs the public interest in disclosing the information.

Items 11 and 12 were exempt from the press and public.

13 Date of Next Meeting 19.9.16

13.1 The next meeting of the Pensions Committee will be on Monday 19th September 2016 at 10.00am.

Signed **Chair** **Date.....**

Minutes produced by Geraint Thomas, Democratic & Member Support Officer.

CYFARFOD PWYLLGOR PENSIYNAU
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
A gynhaliwyd ar ddydd Llun, 4 Gorffennaf 2016 am 10am
Yn Siambr y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Ffordd Hanbury, Pont-y-pŵl, NP4
6YB

COFNODION

Yn bresennol: Aelodau'r Pwyllgor

Y Cynghorwyr:

Mary Barnett (Cadeirydd)
Stephen Brooks

Nigel Davies

Swyddogion

Nigel Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol, Adnoddau (ACER)
Ros Gwynn, Rheolwr Cymorth Democrataidd ac Aelodau (D&MSM)
Delyth Harries, Prif Swyddog Cyfreithiol Cynorthwyol a Dirprwy Swyddog Monitro (ACLO&DMO)
Mary Rollin, Rheolwr Pensiynau (PM)
Graeme Russell, Pennaeth AD a Phensiynau (HoHR&P)
Geraint Thomas, Swyddog Cymorth Democrataidd ac Aelodau (D&MSO)

Hefyd yn Mynychu'r Cyfarfod

Elizabeth Carey, Cyngorydd Buddsoddi Annibynnol
Julie Masci, Cyfarwyddwr Cyswllt Grant Thornton
Jackson Murray, Rheolwr Archwilio Grant Thornton

Yn arsylwi o'r oriel gyhoeddus

5 Aelod o'r Bwrdd Pensiwn

Gweithredu

1 Croeso a Phresenoldeb

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Bevan, Pamela Cameron a Stuart Evans. Croesawodd y Cadeirydd y 5 Aelod o'r Bwrdd Pensiwn a oedd yn arsylwi'r cyfarfod o'r Oriel Gyhoeddus, y cynrychiolwyr o Grant Thornton ac Elizabeth Carey a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Pensiynau.

1.2 Esboniodd y Cadeirydd y byddai angen i aelodau'r Bwrdd Pensiwn adael y Siambr ar gyfer eitemau 11 a 12 ar yr agenda dan reolau gwahardd y wasg a'r cyhoedd, ond y byddai'r wybodaeth ar gael i holl Aelodau'r Bwrdd Pensiwn maes o law.

2 Datganiadau o Fuddiant

2.1 Cadarnhaodd yr Aelodau y datganiadau canlynol o fuddiant personol fel y'u darllenwyd gan y Prif Swyddog Cyfreithiol Cynorthwyol a Dirprwy Swyddog Monitro:

Y Cyngorydd	Yn Derbyn Pensiwn	Cyfrannwr
Mary Barnett	Gŵr	Hunan
Stephen Brooks	Hunan a brawd	Hunan, nith a gŵr nith
Nigel Davies	DIM	Hunan

Datganodd y Cyngorydd Barnett fuddiant personol hefyd gan mai hi oedd Cynrychiolydd Cymru ar Fwrdd Ymgynghorol Cynllun Gweinidogion CPLIL ac aelod o'r Gweithgor Diffyg, wedi ei phenodi i Fwrdd Gweithredol LAPFF (Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol) aelod o Bwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (LGPC) ac yn aelod o Aelodau Ymddeoledig Cymru Undeb Prifysgolion a Cholegau. Cadarnhaodd y Cyngorydd Barnett hefyd y byddai disgwyl iddi fynychu cyd-gyfarfodydd Cadeiryddion Cymru Gyfan, swyddogion Adran 151 a Phenaethiaid Pensiynau ar y gronfa fuddsoddi gydweithredol ar gyfer Cymru.

Gadawodd y Prif Swyddog Cyfreithiol Cynorthwyol a Dirprwy Swyddog Monitro y cyfarfod ar y pwynt hwn.

3 Cofnodion 14/3/16

3.1 Nodwyd bod Bob Campbell wedi cael ei gyfeirio ato fel Bob Cameron yn y cofnodion.

3.2 Mewn perthynas â 5.2, cadarnhaodd y Pennaeth AD a Phensiynau (HoHT&P) bod y ddwy swydd wag ar y Bwrdd Pensiwn wedi eu llenwi. Mewn perthynas â 12.1, roedd y gynhadledd wedi bod yn rhagorol ond yn dawedog ar ôl canlyniad Brexit ar y dydd Gwener, a oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r Bwrdd.

3.3 Yn amodol ar yr uchod, cadarnhawyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

4 Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn a Chyfrifon 2015/16

4.1 Amlinellodd yr HoHR&P y penawdau canlynol o'r adroddiad:

- Roedd llawer o gynnwys yr adroddiad wedi ei ystyried eisoes gan y Pwyllgor Pensiynau.
- Roedd llawer o fanylion yn yr adroddiad, peth ohono wedi ei bennu gan Reoliadau.
- O ben i ben, bu'n flwyddyn ddiddorol, a oedd wedi gweld cynnydd mewn aelodaeth o 3.4% a newid ym mhroffil yr aelodaeth. I gyd, roedd bellach 55,481 o aelodau ac roedd asedau net y Gronfa yn £2.210bn. Taliadau blynyddol i bensiynwyr oedd £109.229m.
- Roedd amgylchedd buddsoddi anodd yn bodoli, oherwydd terfysg mewn cyd-destun gwleidyddol ac economaidd, gan gynnwys amrywiol

newidiadau deddfwriaethol cenedlaethol.

- Nid oedd y Gronfa wedi gweld elw buddsoddi cadarnhaol yn gyffredinol. Roedd wedi tanberfformio, ynghyd â'r farchnad yn gyffredinol, ond dim ond tanberfformiad bychan oedd mewn termau cymharol.
- Esboniwyd y trefniadau Llywodraethu trwy'r Bwrdd a Rheoli Risg, yn unol â thudalennau 27 a 29 yr agenda yn eu tro.
- Roedd 3 neu 4 maes o danberfformiad buddsoddiadau, ond roedd hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan berfformiadau cryfion eraill. Ymhelaethodd ar hyn gan atgoffa'r pwyllgor bod camau wedi eu cymryd ar fuddsoddiadau Aberdeen a oedd yn tanberfformio, ac roedd gwelliannau i'w gweld yn y maes hwn bellach.
- Esboniodd nad oedd Daliadau Gwahanedig Ecwiti Deg Uchaf y DU a restrwyd ar dudalen 106 yr agenda yn cynnwys adnoddau cronus, y mae'r Gronfa'n defnyddiol llawer ohonynt.
- Esboniodd bod datblygiadau a chynigion llywodraeth genedlaethol yn bwysig o ran llywodraethu i'r dyfodol.

4.2 Datganodd y Cadeirydd ei chred bod y Gronfa wedi cymryd y penderfyniad cywir i fod â Bwrdd Pensiwn mwy na'r rhan fwyaf a bod hyn wedi helpu'n arwyddocaol o ran cael cworwm yn y cyfarfodydd. Diolchodd hefyd i'r Bwrdd am eu presenoldeb a'r hyfforddiant a ymgymerwyd.

4.3 Cafwyd trafodaeth ar bryderon Llywodraethu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chorfforaethol (ESG) mewn cwmnïau megis rhai tybaco. Cytunodd yr HoHR&P bod llinell fain yn bodoli rhwng gofynion moesegol a chyfrifoldebau ariannol a bod sgrinio moesegol yn bodoli ar ffurf rheolwyr buddsoddi. Cytunodd yr aelodau mai nhw yn y pen draw oedd yn gyfrifol am gyflawni elw digonol i wneud y taliadau pensiwn.

4.4 Cytunodd y Pwyllgor Pensiynau yr Adroddiad a chydabod camau nesaf y broses gymeradwyo ar gyfer y Cyfrifon.

5 Archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 (Adroddiad ISA 260 Grant Thornton)

5.1 Cyflwynodd Julie Masci ei hun a'i chydweithiwr Jackson Murray, a oedd wedi archwilio cyfrifon 2015/16. Cyflwynwyd y penawdau canlynol o'r adroddiad:

- Amlinellwyd eu hamserlen ar gyfer rhoi eu barn a thystysgrif archwilio. Dywedasant y byddai'r archwiliad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 19eg Gorffennaf a, gobeithio, yn cael ei gadarnhau'r diwrnod canlynol.
- Cofnodwyd eu diolch i'r HoHR&P a'i dîm am eu gwaith a'u cymorth trwy gydol y broses archwilio.
- Canmolasant y Cyngor cyfan oherwydd bod y cyfrifon wedi eu cwblhau dros 2 fis cyn y dyddiad cenedlaethol. Nodwyd, oherwydd hyn, bod angen rhai addasiadau gan fod gwybodaeth mwy ffres nawr ar gael.
- Gallai digwyddiadau ar ôl paratoi'r fantolen gael effaith, megis canlyniad refferendwm UE a oedd wedi denu cyfnewidoldeb mewn perthynas â buddsoddiadau a phrisiadau.

- Darparwyd naratif mewn perthynas â Newport Transport Ltd, Capita Gwent Consultancy, Monwell Hankinson a throsglwyddo £45m i Gronfa Rhondda Cynon Taf, oherwydd uno Prifysgol De Cymru.
- Esboniwyd, oherwydd eu hargymhellion nhw, bod rheolwyr wedi trefnu addasiadau mewn perthynas â chyfandaliadau wedi eu hacriwio yn dod i £830k, a oedd yn cynnwys 20 o aelodau ychwanegol a ddaeth i'r amlwg ym mis Mehefin 2016.
- Cafwyd mân gamgymeriadau mewn perthynas â rhai taliadau budd-daliadau pensiwn, ond peth unwaith-ac-am-byth oedd hwn ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r cyflenwr meddalwedd i gywiro hyn.
- Esboniwyd manteision cysoni niferoedd aelodau, yn unol ag argymhelliad 2014-15.
- Trafodwyd addasiadau oherwydd budd-daliadau marwolaeth a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

5.2 Ar ôl sylw gan awduron yr adroddiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol ei fod yn hapus gyda'r ffaith nad oedd pob cyfnodolyn dan £200k yn destun arolwg a bod yr un polisi wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus am nifer o flynyddoedd.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i Grant Thornton am eu sylwadau cadarnhaol a'u dull gyda swyddogion. Dywedodd hefyd eu bod yn teimlo ei bod wedi cael tawelu ei meddwl o ran trosglwyddo asedau fel BlackRock.

5.4 Cydnabu'r Pwyllgor Pensiynau'r adroddiad a'r camau nesaf angenrheidiol er mwyn cymeradwyo'r Cyfrifon.

5.5 Gadawodd Julie Masci a Jackson Murray y cyfarfod ar y pwynt hwn.

6 Adroddiad Perfformiad Buddsoddi Chwarterol i'r 31ain Mawrth 2016

6.1 Esboniodd y HoHR&P bod yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod 1af Ionwar – 31ain Mawrth 2016 a bod peth gwybodaeth eisoes yn hanesyddol. Cyflwynodd y penawdau canlynol o'r adroddiad:

- Roedd y Gronfa wedi gweld cynnydd bychan o £12m ers mis Rhagfyr 2015, ond dilynwyd hyn gan gwmp byd-eang ym mis Ionawr a dechrau Chwefror. Roedd y sefyllfa wedi gwella'n ddiweddarach yn y chwarter, gan arwain at chwarter ychydig yn gadarnhaol o ben i ben. Roedd yr elw cyffredinol 1.2% yn well na'r farchnad.
- Roedd elw cadarnhaol y Gronfa o 0.74% bron hanner un y farchnad yn gyffredinol ac roedd y gwrthwyneb i'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y chwarter blaenorol.
- Roedd ffigurau'r 3, 5 a 10 mlynedd ddiwethaf wedi mynd i lawr rhyw ychydig ac nid oedd y sefyllfa mor gadarnhaol ag yr oedd 2 neu 3 chwarter yn ôl.
- Roedd rheolwyr buddsoddi gweithredol wedi ymdrechu'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac o ben i ben roedd y tanberfformwyr wedi gorbwyso'r trosberfformwyr rhyw ychydig.

- Amlinellwyd yr anghysonderau yn y farchnad fyd-eang oherwydd 'Brexit', ond nodwyd bod y marchnadoedd wedi sefydlogi, gyda marchnad y DU mewn sefyllfa well na marchnad Ewrop.
- Amlinellwyd rôl BlackRock fe y rheolwr buddsoddiad ased goddefol sengl newydd (a benodwyd ar y cyd gan yr 8 cronfa) a bod hyn yn cael ei ystyried yn ffafriol gan DCLG a'r Trysorlys. Esboniwyd bod y Gronfa eisoes yn defnyddio BlackRock ac y byddai cronfeydd eraill yn trosglwyddo iddynt.
- Esboniwyd y gwaith cydweithredol ar fuddsoddiadau gweithredol a bod dyddiad cau ddiwedd Gorffennaf wedi ei bennu.

6.2 Nododd y Cadeirydd sut yr oedd wedi ei phlesio gyda phenderfyniad Pwll Cymru a'u bod wedi ymgymryd ag agwedd fforensig o ran risgiau a'r ffordd ymlaen.

6.3 Atebodd y HoHR&P gwestiynau'r Aelodau ar gostau rheoli a thryloywder gan esboniod bod CEM yn cael eu defnyddio i sefydlu meincnodau cost, gwerth am arian a gwaith archwilio o gwmpas tryloywder. Ychwanegodd y disgwylid arbedion o £1m-£1.5m y flwyddyn o ran ffioedd rheolwr buddsoddi goddefol.

6.4 Canmolodd yr aelodau waith y swyddogion, yn enwedig o ran y cyfrifoldebau ychwanegol oherwydd mesurau arbed costau yn yr adrannau.

6.5 Cytunodd y Pwyllgor Pensiynau i:

- iii. **gydnabod y perfformiad buddsoddi a gafwyd yn chwarter 2016; a**
- iv. **cydnabod y gweithgaredd buddsoddi.**

7 Diweddariadau Dogfen Bolisi Cronfa Bensiwn – Cofrestr Risg y Gronfa Bensiwn

7.1 Amlinellodd yr HoHR&P yr adroddiad. Esboniodd bod paragraff 5 yn delio â materion gan y Pwyllgor a'r Bwrdd, gan ychwanegu bod mân newidiadau wedi eu gwneud i'r gofrestr o ganlyniad a bod y risgiau wedi eu categoreiddio.

7.2 Cadarnhaodd yr HoHR&P ei fod eisiau integreiddio'r eitem hon ymhellach o ran yr adroddiad blynyddol, gan ychwanegu ei fod yn gynhwysfawr ac y gallai esblygu.

7.3 Cytunodd y Pwyllgor Pensiwynau:

- v. **gydnabod y diweddariadau i'r ddogfen Polisi Cronfa newydd, y Gofrestr Risg, i ymestyn lefel bresennol adrodd am risg y Gronfa;**
- vi. **bod y ddogfen a ddiweddarwyd nawr yn cael ei chyhoeddi ar wefannau'r Gronfa Bensiwn a'r Cyngor ac felly cael ei mabwysiadu fel dogfen bolisi bresennol y Gronfa;**
- vii. **ar ôl cyhoeddi, bod unrhyw sylwadau neu gwestiynau gan y rhanddeiliaid mewn perthynas â'r ddogfen a ddiweddarwyd yn cael eu cyfeirio i bwyntiau cyswllt swyddog penodedig y Gronfa i gael**

- ymateb ac er ystyriaeth os yn briodol mewn fersiynau o'r ddogfen yn y dyfodol;**
- viii. **y bydd unrhyw ddiweddariadau arfaethedig pellach o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried cyn cyhoeddi.**

8 Diweddariad ar y Weinyddiaeth

8.1 Rhoddodd y Rheolwr Pensiynau ddiweddariad a thanlinellu'r canlynol yn yr adroddiad:

- Cafwyd gwelliannau ac arbedion mewn costau trwy gyfrwng datblygu systemau a chyfathrebu electronig, gan felly wella cyflymder cyfathrebu ag aelodau a chyflogwyr.
- Roedd lansiad hunan-wasnaeth trwy gyfrwng Fy Mhensiwn Arlein wedi ei brofi'n llwyddiannus o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gyda chyflwyniad llawn wedi ei drefnu ar gyfer mis Awst 2016.
- Esboniwyd gwelliannau a glanhau data trwy'r porth cyflogwyr, a ddangoswyd ym mharagraff 6 yr adroddiad.
- Gwelwyd gwelliannau arwyddocaol o ran y canran o gyflogwyr yn cyflawni'r dyddiad cau diwedd y flwyddyn, oherwydd gwaith y tîm Pensiynau a'r cyflogwyr eu hunain.
- Roedd mater heb ei drin, yn y ffaith bod mwy na 1,000 o adawyr heb eu hysbysu yn bodoli ar draws y gronfa. Roedd hwn yn fater arwyddocaol ac roedd angen cyflwyno ffurflenni terfynu gan y cyflogwyr. Gan fod angen gwybodaeth gywir mewn perthnas â gwybodaeth actiwari, defnyddir diweddariadau misol yn fuan yn hytrach na data diwedd y flwyddyn.
- Roedd y tîm Pensiynau yn gweithio'n galed iawn i gasglu ynghyd yr wybodaeth a amlinellwyd ym mharagraff 7 yr adroddiad ar Brisiad Actiwarial 2016.
- Roedd y cynnydd a welwyd o ran gwaith eto i'w drin ymhlith y tîm Pensiynau yn deillio o'r ffaith bod mwy o waith yn bodoli a bod llawer o swyddogion ar absenoldeb mamolaeth. Gobeithid y byddai'r sefyllfa'n gwella yn y misoedd i ddod.
- Adlewyrchai'r enwebiadau gwobrau ym mharagraff 9 yr adroddiad waith y tîm cyfan ac roeddent yn llwyddiannau gwyach.
- Cadarnhawyd bod gan aelodau'r Gronfa nawr mwy o reolaeth o ran cynllunio ymddeol.

8.2 Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm Pensiynau ar eu henwebiadau ar gyfer gwobrau a dywedodd bod y Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed y canlyniadau.

8.3 Cydnabu'r Pwyllgor Pensiynau yr adroddiad.

9 Aelodau Etholedig – Datblygiad Proffesiynol Parhaus - Diweddariad

9.1 Rhoddodd yr HoHT&P ddiweddariad ac esboniodd bod hyn hefyd yn gyfle i'r Aelodau ofyn am unrhyw hyfforddiant a datblygiad.

9.2 Cydnabu'r aelodau yr adroddiad.

10 Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

- 10.1 Cytunodd y pwyllgor wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan nad oedd y cyflwyniadau a phapurau'r cyfarfod i'w cyhoeddi oherwydd, yn unol â pharagraffau 12 a 14 o ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Amrywio Mynediad at Wybodaeth Cymru 2007), roedd yn cynnwys gwybodaeth am unigolyn penodol a gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol a busnes personau penodol gan gynnwys y Cyngor, ac ym mhob un o amgylchiadau'r achos roedd budd y cyhoedd yn cynnal yr eithriadau yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth.

Roedd Eitemau 11 a 12 wedi'u heithrio rhag y wasg a'r cyhoedd.

13 Dyddiad y cyfarfod nesaf 19.9.16

- 13.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar ddydd Llun 19eg Medi 2016 am 10.00am.

Llofnod..... Cadeirydd Dyddiad.....

Cynhyrchwyd y cofnodion gan Geraint Thomas, Swyddog Cymorth Democrataidd ac Aelodau